# ADRODDIAD BLYNYDDOL – 2013/14

**Y Cynghorydd:** Eryl Jones-Williams **Grŵp**: Annibynnol

**Ward:** Dyffryn Ardudwy

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw cynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rôl a chyfrifoldebau:**
Yn ystod 2013/14, fe wnes i barhau â fy ngwaith fel Pencampwr Gofalwyr Gwynedd gan fynychu cyfarfodydd ledled gogledd Cymru yn ymwneud â gofal; roedd y rhain yn cynnwys y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau, Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (yn cynrychioli Meirionnydd), Fforwm Mynediad Meirionnydd (is-gadeirydd), Pwyllgor Llywio Pobl Hŷn Gwynedd, Pwyllgor Partneriaeth mewn Gofal sy'n cynnwys y GIG a'r sector gwirfoddol.

Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Safonau Gwynedd ac yn is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ac wedi cadeirio nifer o is-bwyllgorau yn ymwneud â cheisiadau ac ati. Cefais fy mhenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu yn ddiweddar.

Rwyf hefyd yn is-gadeirydd Pwyllgor Harbwr Abermaw sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac yn is-gadeirydd grŵp ymgynghorol rheilffordd Arfordir y Cambria a chefais fy mhenodi i gynrychioli Gwynedd ar y Grŵp Rheilffordd yr Amwythig i Aberystwyth.

**Gweithgareddau etholaethol:**

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**
Rwy'n cynrychioli buddion yr anabl ar Fforwm Mynediad De Eryri sy'n cyfarfod bob chwarter.
Rwy'n rhoi adroddiadau misol llawn i Gynghorau Cymuned Dyffryn Ardudwy a Thalybont ac mae'r rhain ar gael ar y wefan.

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau isod:**

| PWYLLGOR | YN BRESENNOL |
|---|---|
| Y Cyngor | 4 |
| Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 5 |
| Pwyllgor Craffu Gwasanaethau | 5 |
| Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | 4 |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog | 5 |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 2 |
| Pwyllgor Safonau | 4 |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw | 2 |
| Cyfarfod Paratoi'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 3 |
| Cyfarfod Paratoi'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau | 3 |
| Fforwm Ardal Meirionnydd | 3 |

Canran Presenoldeb: 93%

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol isod:**
Roeddwn yn aelod o'r ymchwiliad craffu ynghylch rhyddhau cleifion o ysbytai.
Roeddwn yn aelod o'r ymchwiliad craffu ynghylch caffael ac edrych ar ffyrdd i gefnogi contractwyr lleol i allu ymgeisio am gontractau'r Cyngor i helpu'r economi leol a chreu swyddi.

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol isod:**
Ysgol Dyffryn Ardudwy (Llywodraethwr)
Ysgol Ardudwy (Llywodraethwr)

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd isod:**

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu isod:**

| |
|---|
| **Corfforaethol** |
| Data Perfformiad yr Awdurdod ac Ysgolion |
| Llywodraethwyr Ysgolion ac Amddiffyn Plant |
| Gwybodaeth am Bobl: Eich Cyfrifoldeb Chi |
| |
| |
| |
| **Ychwanegol** |
| Sgiliau Cadeirio Effeithiol (WLGA) |
| |
| |

Cyfanswm nifer o oriau: 8